

## **Ysgoloriaethau a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru**

### **Adroddiad Cadeirydd y Panel Ysgoloriaethau 2018**

Bu'n brofiad gwefreiddiol unwaith eto i'r Panel Ysgoloriaethau dderbyn ac ystyried cymaint o geisiadau am gefnogaeth gan awduron Cymru. Eleni bu nifer o newidiadau i'r broses o ddyfarnu Ysgoloriaethau ac hoffwn ar ran y panel nodi ein diolch diffuant i Petra Bennett am ei harweiniad a'i chefnogaeth wrth i ni weithredu'r Ysgoloriaethau a'r Cynllun Mentora ar eu newydd wedd.

Nod y newidiadau, a gafodd eu hargymell gan awduron a Chyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru, yw sicrhau bod mwy o bwyslais ar ddatblygu y llenorion sy'n derbyn cefnogaeth gennym. Gofynnwyd i'r Panel ddyfarnu hyd at ugain o Ysgoloriaethau Awduron o £3000 yr un, gyda chwech o'r ugain ysgoloriaeth wedi eu clustnodi ar gyfer awduron newydd, ac un o'r rheiny ar gyfer awdur o dan 25 mlwydd oed. Cafodd y drefn newydd eglur, strategol a chytbwys hon ei chroesawu'n fawr gan y Panel, yn enwedig y cam newydd o gynnwys lle ar gwrs mentora preswyl yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd a sesiynau dilynol un-i-un fel rhan o'r Ysgoloriaethau ar gyfer 6 awdur newydd. Mae'r cyswllt agosach hwn rhwng y Cynllun Mentora a'r Ysgoloriaethau yn tanlinellu pwysigrwydd a gwerth cefnogaeth ymarferol, broffesiynol wrth feithrin a datblygu llenorion, ochr yn ochr â chynnig cynhaliaeth ariannol. Yn ogystal â'r ugain Ysgoloriaeth Awdur, roedd hefyd pedwar lle ar y Cynllun Mentora i'w dyfarnu, a modd i ni gefnogi ceisiadau am Ysgoloriaethau Cefnogi er mwyn cynorthwyo awduron sy'n gorfod ymdopi ag anabledau neu broblemau iechyd penodol.

Derbyniwyd 110 o geisiadau am Ysgoloriaethau eleni, nifer uchel ohonynt (73) gan awduron newydd a 3 o'r rhain gan awduron a oedd yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Awdur o dan 25. Mae hyn yn brawf sicr o werth y cynllun i feithrin awduron sy'n datblygu eu crefft ac yn arwydd calonogol iawn bod gwaed newydd yn cyffroi ac yn cyfoethogi ein diwylliant llenyddol. Dim ond 9 awdur oedd wedi derbyn Ysgoloriaeth yn y gorffennol (gan naill ai CCC, yr Academi neu gan Llenyddiaeth Cymru.) Roedd 103 o'r ceisiadau yn rhai Saesneg a 7 yn rhai Cymraeg a chafwyd 4 cais am gefnogaeth o'r Gronfa Cefnogi. Roedd yn braf gweld bod 4 cais gan awduron sydd wedi derbyn cefnogaeth drwy Gynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru, gan danlinellu llwyddiant Llenyddiaeth Cymru i feithrin hyder a chynnig arweiniad i awduron wrth iddynt gymryd y cam nesaf yn eu datblygiad fel llenorion.

Hoffwn nodi dau beth cyn ymhelaethu ar benderfyniadau'r Panel eleni. Yn gyntaf, bod hanner y ceisiadau a dderbyniwyd wedi dod i law ar ddiwrnod y dyddiad cau. Roedd amryw o fylchau a gwallau, ynghyd ag ambell ateb arwynebol a brysiog ar rai ffurflenni weithiau'n rhoi ymgeiswyr dan anfantais. Hoffwn felly atgoffa ymgeiswyr y dyfodol, o ystyried natur gystadleuol iawn y broses a safon uchel y ceisiadau, y dylid sicrhau bod eu ffurflen yn gwneud cyfiawnder â'u cais a'u dawn lenyddol. Yn ail, roedd nifer y ceisiadau gan awduron Cymraeg unwaith eto'n gymharol isel - 7 o 110. O ystyried bywiogrwydd y sîn lenyddol Gymraeg - a adlewyrchir gan fentrau cyffrous fel cylchgrawn *Y Stamp*, podlediad *Clera* a disgleirdeb enillwyr eisteddfodau lleol a chenedlaethol, mae'n drueni gwirioneddol nad oes mwy o lenorion Cymraeg, yr ifanc yn enwedig, yn elwa ar y gefnogaeth werthfawr y gallai Ysgoloriaeth gynnig iddynt. Ni ddaeth yr un cais gan fardd Cymraeg eleni.

Ymlaen felly at y ceisiadau a ddaeth i law. Wedi chwynnu'r rhestr gychwynnol o 110 yn restr hir o 43, dilynodd ail gam y broses anodd o benderfynu pa awduron oedd yn arddangos addewid gwirioneddol a dawn o'r safon uchaf. Yn ogystal â'r nifer uchel o awduron newydd o bob oed a chefnidir a gyrrhaeddodd y rhestr hir, roedd hefyd cyfran dda o awduron profiadol, gan brofi bod yr Ysgoloriaethau yn ffynhonnell creiddiol ar gyfer awduron ar bob cyfnod o'u gyrfa. Wrth drafod a thafoli y ceisiadau a gyflwynwyd, roedd y panel yn boenus o ymwybodol, yn sgîl cyfyngiadau'r gyllideb eleni, na fyddai modd cefnogi rhai awduron yr oedd eu gwaith yn haeddu ei ddatblygu ymhellach.

Roedd barddoniaeth bron mor amlwg â ffuglen o ran genre y ceisiadau a gyrrhaeddodd y rhestr hir eleni, a honno'n farddoniaeth mewn sawl achos o'r safon uchaf. Roedd y Panel yn falch o weld cynrycholiaeth gref a safonol o ffuglen ar gyfer plant a phobl ifanc a'r enghreifftiau gorau yn cynnwys ysgrifennu "gwirioneddol rhagorol" ym marn adroddiad aelod o'r Panel a chwedloniaeth Cymru yn aml yn ysbrydoli gwaith dychymygus a ffres. Roedd nofelau trosedd yn boblogaidd eto, gyda nifer yn trafod problemau cymdeithasol cyfoes ac yn defnyddio tirwedd trefol a chefn gwlad Cymru fel cefnlen i'r ffuglen a gyflwynwyd. Da hefyd oedd gweld y creadur prin hwnnw, y nofel graffig Gymraeg, ymhlith y ceisiadau a ddaeth i'r brig. A ninnau mewn cyfnod o ail-ystyried ac ail-ddiffinio ein perthynas gyda'n gilydd a gyda'r byd yn sgîl y datblygiadau gwleidyddol chwyldroadol diweddar, doedd dim syndod efallai bod archwilio hunaniaeth yn ei holl agweddau yng Nghymru a thu hwnt - ddoe, heddiw ac i'r dyfodol - yn thema boblogaidd ar draws y genres, o ffuglen ffantasi a dystopaidd, i farddoniaeth o bob ffurf i nofelau ar gyfer oedolion ifanc. Cafwyd ymatebion

deallus a dychmygus ac yn wir gwefreddiol ar brydiau i'r tensiynau sy'n creithio cymunedau - rhagfarn, diffyg llais, anghyfiawnder a dieithrwch.

Ar ran y Panel Ysgoloriaethau hoffwn longyfarch yn wresog y 21 awdur a dderbyniodd Ysgoloriaethau Awduron (6 ohonynt hefyd yn derbyn lle ar y Cynllun Mentora), a'r 4 awdur a dderbyniodd lle ar y Cynllun Mentora, gan edrych ymlaen at ddilyn hynt y gwaith sydd ar y gweill ganddynt. Hoffwn ddiolch i bob un a rannodd eu gwaith gyda ni eleni a gobeithiwn na fydd y llenorion na gafodd eu gwobrwyo yn rhoi'r ffidil yn y to ac yn parhau i ddatblygu eu crefft er budd ein diwylliant llenyddol.

**Sioned Williams**

**Ionawr 2018**